

Ymgynghoriad Polisi Trwyddedu

Deddf Drwyddedu 2003

Cynnig i fabwysiadu Asesiad o'r Effaith
Gronnol ar Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

Dogfen Ymgynghori

Dyddiad cyhoeddi: Camau sy'n ofynnol: Ymatebion gan

Ffôn: (01656) 643664

E-bost: consultation@bridgend.gov.uk

Gwefan: www.bridgend.gov.uk

Cynnwys

Trosolwg	3
Sut i ymateb.....	3
Diogelu data	3
Dogfennau Cysylltiedig	4
Y sefyllfa bresennol	4
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	5
Ymgynghoriad	5
Gweithgaredd	5
Dyddiad	5

Trosolwg

Dan Ddeddf Drwyddedu 2003, mae gan y Cyngor, fel awdurdod trwyddedu, y pŵer i gyhoeddi asesiad o'r effaith gronnol bob tair blynedd. Bydd yr asesiad o'r effaith yn cynorthwyo'r Cyngor i gyfyngu ar nifer y mathau o geisiadau trwydded sy'n cael eu cymeradwyo mewn ardaloedd lle mae tystiolaeth yn dangos bod nifer neu ddwysedd y safleoedd trwyddedig yn cael effaith negyddol ar ardal benodol. Mae'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ar yr asesiad o'r effaith ar gyfer y tair blynedd nesaf, ac yn croesawu safbwyntiau gan y cyhoedd, y sector lletygarwch a phartion eraill sydd â diddordeb.

Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 14 Rhagfyr 2022 ac yn dod i ben ar 8 Mawrth 2023.

Gallwch ymateb neu ofyn rhagor o gwestiynau yn y ffyrdd canlynol;

Ffôn: (01656) 643 664.

E-bost:

Consultation@bridgend.gov.uk

Ar-lein:

www.bridgend.gov.uk/consultation

Swydd: Ymgynghori ac Ymgysylltu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Mae fformatau eraill ar gael ar gais.

Diogelu data

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i lywio'r cyhoeddiad o bolisi Datganiad Trwyddedu gan gynnwys Asesiad o'r Effaith Gronnol. Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cyfrinachedd ac i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Gellir rhannu eich gwybodaeth â'r tîm Trwyddedu at ddibenion adolygu'r Asesiad o'r Effaith Gronnol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw yn unol â Pholisi Cadw Data'r Cyngor.

Mae gennych nifer o hawliau dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Cewch hefyd dynnu eich caniatâd yn ôl a gofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn ar gael ar ein gwefan neu gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

Os ydych yn anfodlon gyda'r modd yr ydym yn prosesu eich data personol, cewch gyflwyno cwyn i'r Swyddog

Diogelu Data a Swyddfa'r Comisiynydd
Gwybodaeth.

**Y dystiolaeth ar gyfer
Asesiad o'r Effaith Gronnol
wedi'i chyflwyno gan Heddlu
De Cymru**

Dogfennau Cysylltiedig

Ein [Datganiad Polisi Trwyddedu](#)
presennol

Ewch i:
<https://www.bridgend.gov.uk/business/licensing/>

Y sefyllfa bresennol

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i adolygu canllawiau ei bolisi.

Bydd y polisi yn helpu pobl sy'n gwneud cais ar gyfer trwydded a'r cyhoedd i ddeall proffil y Fwrdeistref Sirol a'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae gan y Cyngor y pŵer i gyhoeddi asesiad o'r effaith gronnol bob tair blynedd er mwyn helpu i gyfyngu ar nifer y mathau o geisiadau trwydded sy'n cael eu cymeradwyo mewn ardaloedd lle mae dystiolaeth yn dangos bod nifer neu ddwysedd y safleoedd trwyddedig yn cael effaith negyddol.

Mae Heddlu De Cymru wedi gofyn i'r Cyngor gadw'r Polisi Effaith Gronnol ar gyfer strydoedd penodol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae effaith gronnol yn golygu'r problemau a all godi pan fo crynodiad o safleoedd trwyddedig mewn ardal benodol, fel canol trefi, er enghraifft. Gall fod effaith sylweddol ar drosedd ac anhrefn, niwsans cyhoeddus, y rhwydwaith trafnidiaeth neu lanhau strydoedd, er enghraifft. Mae'r polisi presennol yn cwmpasu Heol y Dderwen, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham, a Stryd Nolton (o'i chyffordd â Heol Ewenni, i'w chyffordd â Heol Merthyr Mawr, ond nid yr ardal rhwng Heol Merthyr Mawr a'r gyffordd gyda Heol Cwrt Pen-y-bont ar Ogwr). Mae effaith y polisi'n golygu ni fydd unrhyw drwyddedau ar gyfer safleoedd neu safleoedd clybiau neu amrywiaethau yn cael eu cymeradwyo, oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu arddangos na fydd unrhyw effaith negyddol yn codi o'r safle ar yr amcanion trwyddedu. Yr amcanion trwyddedu yw:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Niwsans cyhoeddus;
- Diogelwch y cyhoedd;

- Diogelu plant rhag niwed.

Mae arweiniad y Swyddfa Gartref yn amlinellu bod rhai ardaloedd, lle mae nifer, math neu ddwysedd safleoedd trwyddedig yn uchel neu mae problemau difrifol eithriadol o niwsans neu anhrefn yn gallu codi y tu allan i'r safleoedd hyn. Yn ogystal â hynny, gall crynodiadau mawr o safleoedd effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, taflu sbwriel a niwsans cyhoeddus.

Mae Heddlu De Cymru wedi gofyn bod y Cyngor yn cadw'r polisi arbennig hwn yn ei le mewn perthynas â Chanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r cais hwn. Nid yw Heddlu De Cymru wedi gofyn i'r Cyngor newid pa strydoedd sydd wedi'u cwmpasu yn y polisi presennol.

Pe bai'n cael ei fabwysiadu, mae gan yr asesiad o'r effaith gronnol y potensial i effeithio ar a fyddai trwyddedau newydd yn cael eu cymeradwyo ar gyfer tafarndai, bwytai, lleoliadau adloniant, lleoliadau diwylliannol, clybiau nos, lleoliadau tecawê lluniaeth gyda'r hwyr, safleoedd trwyddedig a chlybiau.

Ni fydd yn berthnasol i Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro.

Mae'r pro fforma isod yn ceisio eich safbwyntiau ar a ddylai'r Cyngor gadw'r polisi hwn ar waith er mwyn llywio'r penderfyniad o gymeradwyo trwyddedau yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Noder, rhaid i'r cyngor dderbyn tystiolaeth o'r problemau sy'n codi. Gallai tystiolaeth gynnwys ystadegau, adroddiadau, holiaduron trigolion, tystiolaeth gan gynghorwyr plwyf a lleol, ystadegau sy'n ymwneud ag iechyd ac ymgynghoriad lleol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae sgrinio cychwynnol wedi'i gwblhau. Nid oes newid i'r polisi, felly mae'r sgrinio cychwynnol yn parhau'n ddilys.

Ymgynghoriad

Bydd y Cyngor yn ystyried y wybodaeth a ddarperir yn ofalus. Bydd yr holl safbwyntiau a dderbynnir o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn llawn cyn y cyhoeddiad terfynol. Amserlen a ragwelir ar gyfer rhoi'r weithdrefn a chynigion ar waith

Gweithgaredd	Dyddiad
Dyddiad terfynol i ymateb	
Adrodd i'r Cabinet ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.	

